# BWLETIN Y FARCHNAD HCC


MEDI 2017

**Mae'r data diweddaraf gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC) am fasnach y DU yn dangos fod y patrymau masnachu ar gyfer cig eidion, cig oen a phorc wedi amrywio'n sylweddol yn ystod hanner cyntaf 2017. Mae allforion cig eidion a phorc wedi gostwng ond mae allforion cig defaid wedi cynyddu'n sylweddol; i'r gwrthwyneb y bu hi o ran mewnforion, gyda chynnydd ar gyfer cig eidion a phorc a gostyngiad ar gyfer cig defaid. Yr un cysondeb a geir yn y ffigurau yw bod gwerth yr allforion wedi cynyddu ar gyfer y tri math o gig, sy'n arwydd clir o effaith y bunt yn gwanhau yn erbyn yr Ewro.**
**Bydd Bwletin y Farchnad y mis hwn yn edrych yn fanylach ar hyn.**

## Cig Eidion

Roedd allforion cig eidion ar gyfer y cyfnod o chwe mis yn 50,500 tunnell, sef gostyngiad o 7% ar gyfer y flwyddyn. Daw hyn wrth i gynhyrchu domestig ostwng, gan ddylanwadu ar y ffigurau wrth i broseswyr geisio cyflenwi gofynion y DU. Daw'r gostyngiad yng nghyfaint y gwerthiannau am fod llai o gig wedi'i anfon i farchnadoedd traddodiadol y DU - yn Iwerddon, yr Iseldiroedd a Ffrainc. Byddai llawer iawn o'r cig eidion a anfonwyd i Iwerddon a'r Iseldiroedd wedi cael ei brosesu a'i gludo wedyn, ac felly byddai'r newid yn cyfeintiau'n gysylltiedig â'r gostyngiad yn nifer y gwartheg difa a laddwyd eleni. Y cyrchfan pedwerydd pwysicaf ar gyfer allforion cig eidion eleni yw Hong Kong (a dderbyniodd bron 7% o'r holl allforion cig eidion); mae'r cyfaint a anfonwyd yno bron wedi dyblu yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn. Byddai'r rhan fwyaf o'r cig yn doriadau isel eu gwerth, gan roi cyfle da i allforwyr y DU gael marchnad i'r cynhyrchion hyn. Mae modd gweld effaith y bunt wan yng ngwerth yr allforion cig eidion ar gyfer y cyfnod, sef £189.6 miliwn, cynnydd o dros 11%.

Mae mewnforion cig eidion wedi cynyddu ychydig yn ystod y cyfnod, gyda chyfanswm o 129,700 tunnell yn cael ei gludo i'r DU. Gan amlygu'r 'carwsel cig eidion' sydd yn bodoli ar hyn o bryd yn y diwydiant, y ddau brif allforiwr o'r Undeb Ewropeaidd oedd Iwerddon a'r Iseldiroedd, a allforiodd fwy nag erioed o'r blaen. Roedd cyfaint Iwerddon yn gyfrifol am dros 70% o'r cyfanswm cig eidion a fewnforiwyd i'r DU yn y cyfnod o chwe mis. Mae hyn yn pwysleisio pwysigrwydd marchnad y DU i gynhyrchwyr Iwerddon a pham y bydd unrhyw gyfyngiadau masnachu yn dilyn trafodaethau ymadael â'r UE yn cael effaith ar unwaith ar ddwy ochr Môr Iwerddon. Roedd gwerth mewnforion cig eidion ar gyfer y cyfnod ychydig dros hanner biliwn o bunnau, sef tua 5% yn uwch na ffigur 2016 ond yn debyg i'r hyn a welwyd yn 2015.




## Cig Defaid

Roedd allforion cig defaid o'r DU ar gyfer y cyfnod Ionawr i Fehefin yn 40,430 tunnell, sef cynnydd o bron i 18% ar y flwyddyn. Yn galonogol ac yn tynnu sylw at ba mor gystadleuol yw allforwyr y DU a'u hawydd i gael portffolio eang o gwsmeriaid, cafwyd cynnydd yn yr allforio i'r deg prif gyrchfan. Unwaith eto, Ffrainc oedd y wlad a dderbyniodd y cyfaint mwyaf, sef dros 44% o'r holl allforion cig defaid. Dylid nodi, fodd bynnag, taw dyma'r gyfran isaf a welwyd ers sawl blwyddyn. Yn ystod y misoedd diwethaf mae'r farchnad Ffrengig wedi gwella, ond yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn roedd y cyfeintiau yn sylweddol is nag yn 2016. Daw pwysigrwydd y farchnad Ewropeaidd i sector y DU yn amlwg o ystyried y pedwar cyrchfan nesaf o ran pwysigrwydd (yn cyfrif am draean o'r holl allforion). Y pedwar yw'r Almaen, Iwerddon, Gwlad Belg a'r Iseldiroedd, a gynyddodd gyfeintiau eu mewnforion, yn ôl eu trefn, 29%, 17%, 23% a 43%. Fel gydag allforion cig eidion, cynyddodd y cyfeintiau a anfonwyd i Hong Kong yn ystod y cyfnod; eto byddai llawer o'r rhain wedi bod yn doriadau isel eu gwerth. Gwerth allforion cig defaid yn y chwe mis oedd £177.3 miliwn, sef 25% yn uwch nag yn 2016.


Fe wnaeth mewnforion cig defaid yn ystod hanner cyntaf 2017 ostwng 15% i 47,200 tunnell; roedd hyn yn ganlyniad i gyfeintiau llai o Seland Newydd. Roedd y mewnforion o 34,600 tunnell o Seland Newydd yn cyfrif am dros 70% o'r holl fewnforion, ond mae'n dangos fod y cyfuniad o ostyngiad mewn cynhyrchu, ynghyd â chyfradd gyfnewid llai ffafriol ac ymgyrch gyfunol i gael hyd i farchnadoedd newydd wedi cael effaith ar atyniad y DU i allforwyr Seland Newydd. Roedd cyfaint y cig defaid a fewnforiwyd o Awstralia yn cyfrif am ddegfed o'r cyfanswm tra bod mewnforion o Iwerddon wedi cynyddu dros draean i 4,600 tunnell. Gwerth mewnforion cig defaid ar gyfer y cyfnod oedd £216.9 miliwn, sef 2% yn fwy nag yn 2016.

## Porc

Roedd allforion porc y DU ar gyfer y cyfnod yn 107,100 tunnell, sef ychydig yn llai nag yn 2016. Y prif gyrchfan ar gyfer y cynnyrch oedd Tsieina, a gymerodd ychydig dros un rhan o bump o'r cyfanswm. Mae'r farchnad hon wedi dangos twf cadarnhaol o flwyddyn i flwyddyn ers cael mynediad ac mae'n dangos pwysigrwydd chwilio o hyd am gyrchfannau newydd ar gyfer allforion. Mae gan allforion porc amrediad cymharol gyson o ran cyrchfannau mewn nifer fach o wledydd; mae'r Almaen, Iwerddon a Denmarc, yn ôl eu trefn, yn gyfrifol am 15%, 15% a 12% o'r holl allforion. Fel gyda chig eidion, er gwaethaf gostyngiad o ran cyfaint, adroddwyd bod gwerth allforion porc wedi cynyddu bron 20% i £145.3 miliwn.

## GWARTHEG

Prisiau gwartheg dethol ym marchnadoedd da byw Cymru a Lloegr





Mae prisiau gwartheg dethol mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru a Lloegr wedi para'n weddol sefydlog yn ystod y mis diwethaf, gyda phrisiau'n amrywio rhwng 195c/kg a 199c/kg. Ar gyfer yr wythnos ddiweddaraf, yn diweddu 26 Awst, roedd y pris cyfartalog am wartheg dethol yn 196.3c/kg, sef 3c yn is na'r flwyddyn flaenorol, ond 7c yn uwch na'r cyfnod cyfatebol y llynedd. Hwn yw'r tro cyntaf i'r pris fod yn llai na 10c yn uwch na phris y llynedd ers mis Mawrth wrth i'r prisiau gydgyfarfod. Disgwylir i'r haf gwlyb gael rhywfaint o effaith ar werthiannau cig eidion gan fod adroddiadau cychwynnol yn awgrymu nad yw bwydydd barbeciw traddodiadol, fel byrgyrs, wedi gwerthu cystal â'r disgwyl. Gwelwyd gostyngiad yn y pris yn y tri chategori o wartheg dethol am fod y niferoedd a werthwyd yn sylweddol uwch nag yn yr wythnos flaenorol. Roedd pris cyfartalog bustych yn 192.4c/kg, sef bron 3c yn is nag yn yr wythnos flaenorol. Y pris cyfartalog ar gyfer heffrod a theirw ifainc yn yr wythnos ddiweddaraf oedd 206.9c/kg a 187.7c/kg, sef, yn ôl eu trefn, 2.3c a 5.1c yn is.

Bu'r patrwm prisiau pwysau marw a welwyd ar gyfer y gwahanol gategorïau o wartheg dethol yn amrywio'n sylweddol ar gyfer yr wythnos. Yn ystod yr wythnos yn diweddu 26 Awst cafwyd cynnydd o 2.7c i gyfartaledd o 365.6c/kg, ym mhris bustych yng Nghymru a Lloegr, sef y pris cyfartalog uchaf er Ionawr 2014, a bron 26c yn uwch nag oedd y llynedd. Cynyddodd y prisiau pwysau marw ar gyfer heffrod hefyd yng Nghymru a Lloegr, er bod mwy o heffrod ar werth, i gyfartaledd o 370.5/kg, sef cynnydd o 4.8c. Mewn cyferbyniad, roedd llai o deirw ifainc ar gael i'w prosesu nag yn yr wythnos flaenorol. Y pris cyfartalog oedd 349.2c/kg, sef gostyngiad o 2.6c.

## DEFAID

Prisiau ŵyn dethol (SQQ) ym marchnadoedd da byw Cymru





Mae'r fasnach cig oen pwysau byw wedi gostwng i lefelau tebyg i 2016 yn ystod yr wythnosau diwethaf am fod nifer yr ŵyn sy'n cael eu marchnata wedi cynyddu'n raddol. Yn yr wythnos yn diweddu 26 Awst roedd y dyfynbris ansawdd safonol (SQQ) ar gyfer ŵyn tymor newydd mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru yn 181.9c/kg, sef bron 5c yn llai na'r cyfartaledd yr wythnos flaenorol. Mae'r pris diweddaraf tua 2c yn uwch na'r cyfartaledd y llynedd. Mae nifer yr ŵyn a werthwyd mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru wedi cynyddu'n raddol dros y mis diwethaf, ac yn yr wythnos ddiweddaraf roedd y trwybwn mewn marchnadoedd sy'n cofnodi prisiau yn 30% yn uwch nag oedd yn ystod wythnos gyntaf y mis. Mae adroddiadau cynnar yn awgrymu y gallai'r pris yr wythnos ddiweddaraf weld rhywfaint o gynnydd am fod angen cyflenwadau ar gyfer dechrau'r ŵyl Fwslimaidd Eid al-Adha.

Mae'r fasnach cig oen pwysau marw wedi dilyn patrwm y farchnad da byw a gwelwyd gostyngiad cyson yn y pris cyfartalog ers dechrau mis Gorffennaf wrth i gyflenwadau gynyddu. Yn yr wythnos yn diweddu 19 Awst, roedd prisiau ŵyn pwysau marw ym Mhrydain yn 436.7c/kg, sef dros 5c yn is na'r wythnos flaenorol. Felly, mae'r pris tua 19c yn uwch nag oedd yn y cyfnod cyfatebol y llynedd.

Mae'r fasnach mamogiaid difa wedi adfer yn sylweddol yn ystod y mis diwethaf wrth i'r niferoedd sy'n cael eu marchnata barhau'n gymharol sefydlog. Yn ystod yr wythnos yn diweddu 26 Awst, roedd y pris £44.80 yr anifail, sef £2.90 yn is na'r wythnos flaenorol. Felly, mae'r prisiau'n £6.70 yr anifail yn is nag yn yr wythnos gyfatebol yn 2016. Dyma'r pris cyfartalog isaf ym marchnadoedd Cymru ar gyfer mamogiaid difa ers dechrau mis Chwefror eleni.

## MOCH

Pris Cyfartalog Moch (Manyleb yr UE) ym Mhrydain




Gwelwyd cyfnod o sefydlogrwydd ym mhrisiau'r holl foch (manyleb yr UE) yn ystod y mis diwethaf - a hynny ar ôl y cynnydd parhaus yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn. Ers dechrau mis Gorffennaf, mae'r pris wedi para tua 168c/kg gydag unrhyw amrywiad yn un bach. Yn ystod yr wythnos yn diweddu 19 Awst, roedd y pris cyfartalog yn168.2c/kg, sef llai na 0.1c yn uwch nag yn yr wythnos flaenorol. Felly, mae'r pris bron 31c yn fwy nag yn yr wythnos gyfatebol yn 2016: dyma'r agosaf y bu'r gymhariaeth flynyddol ers wythnos gyntaf y flwyddyn. Yn y dyfodol mae'r ddwy lefel yn debygol o gydgyfarfod oherwydd cafwyd cynnydd sydyn ym mhrisiau moch yn ail hanner 2016.

Yn yr wythnos yn diweddu 26 Awst roedd pris y moch safonol (manyleb yr UE) yng ngwledydd Prydain yn 164.2c/kg, sef hanner ceiniog yn is nag yn yr wythnos flaenorol. Yn yr un modd â phrisiau'r holl foch, mae'n ymddangos fod prisiau moch safonol wedi sefydlogi yn ystod y mis diwethaf, ac mae'r cyfartaledd wythnosol yn amrywio fesul llai na cheiniog. Byddai hyn yn awgrymu y gallai'r cydbwysedd rhwng cyflenwad a galw ddod i ben os bydd niferoedd cynyddol o'r anifeiliaid hyn yn cael eu marchnata. Ar hyn o bryd mae'r pris am foch safonol bron 27c yn uwch nag oedd yn y cyfnod cyfatebol y llynedd. Amcangyfrifir bod pwysau carcasau wedi cynyddu yn ystod y mis diwethaf ac erbyn yr wythnos ddiwethaf roedd y pris cyfartalog ychydig dros 83.5kg

Yn ystod yr wythnos yn diweddu 26 Awst, roedd pris cyfartalog perchyll 30kg yn £60.70, sef dros £2.10 yn uwch nag yn yr wythnos flaenorol. Mae pris perchyll wedi bod oddeutu £60.00 y mochyn am rai misoedd, sy'n awgrymu y gallai'r pris, yr un fath â'r pris pwysau marw, fod wedi cyrraedd y brig ar hyn o bryd. Yn ystod yr un wythnos roedd y pris cyfartalog am berchyll 7kg yn £44.90, sef 65c yn uwch nag oedd yn yr wythnos flaenorol.